COPI DRAFFT

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Gymraeg.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# CYNLLLUN YMWELIADAU ANNIBYNNOL Â DALFEYDD

# ADRODDIAD BLYNYDDOL

# 2021/22

Cynnwys

1. Rhagair gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys ..... **Error! Bookmark not defined.**

2. Cyflwyniad .......... **Error! Bookmark not defined.**

3. Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd .......... 4

4. Rotas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd .......... 5

5. Data Ymweliadau .......... 6

I. Nifer yr Ymweliadau a Galwadau gan Ymwelwyr Annibynnol .......... 6

II. Nifer y Carcharorion .......... 6

III. Amseru Ymweliadau .......... **Error! Bookmark not defined.**

6. Materion a Godwyd .......... **Error! Bookmark not defined.**

7. Hyfforddiant a Digwyddiadau .......... **Error! Bookmark not defined.**

8. Cynllun Peilot Arsylwyr Annibynnol Dalfeydd ac Adolygu Cofnodion Dalfa 10

9. Cynllun Peilot Dillad Gwrth-rwyg .......... **Error! Bookmark not defined.**

10. Fframwaith Sicrhau Ansawdd .......... 14

11. Datblygiadau i'r Dyfodol .......... **Error! Bookmark not defined.**

12. Diddordeb mewn bod yn Ymwelydd Annibynnol â Dalfeydd? .......... 14

Atodiad A: .......... 15

Atodiad B .......... 16

## 1. Rhagair gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys



Mae Ymweliadau Annibynnol â Dalfeydd yn deillio o adroddiad yr Arglwydd Scarman ar derfysgoedd Brixton yn 1981 a argymhellodd y dylid cyflwyno system o arolygu gweithdrefnau a dalfeydd mewn gorsafoedd heddlu gan aelodau o'r gymuned leol. Cafodd hyn ei ffurfioli yn 2002 gan Ddeddf Diwygio'r Heddlu sy'n gosod dyletswydd statudol ar bob Comisiynydd Heddlu a Throseddu i weithredu Cynllun Ymweliadau Annibynnol â Dalfeydd.

Mae Ymweliadau â Dalfeydd wedi cyflwyno tryloywder i brosesau cadw yn nalfa'r heddlu. Mae gan Ymwelwyr Annibynnol rôl hanfodol o ran sicrhau bod Hawliau Dynol carcharorion yn cael eu cynnal ac y cydymffurfir â Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984.

Sefydlwyd Cynllun Ymweliadau Annibynnol â Dalfeydd yn Nyfed-Powys yn 2001. Ers ei gyflwyno, mae miloedd o ymweliadau wedi'u gwneud i ddalfeydd ledled ardal Dyfed-Powys, gan sicrhau bod carcharorion yn cael eu trin â pharch ac urddas waeth beth fo'r rheswm dros eu cadw yn y ddalfa.

Parhaodd 2021-22 i fod yn flwyddyn heriol ar gyfer fy Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd. Bu'n rhaid atal ymweliadau corfforol am gyfnod oherwydd y pandemig COVID-10, gydag Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn ffonio ein dalfeydd. Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch iddynt am eu cefnogaeth, brwdfrydedd a hyblygrwydd. Mae'r ymrwymiad parhaus a ddangoswyd gan bob Ymwelydd Annibynnol â Dalfeydd yn allweddol i lwyddiant y Cynllun, a hoffwn ddiolch i bob un ohonynt yn bersonol.



Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys


## 2. Cyflwyniad

Mae Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn wirfoddolwyr o'n cymuned leol sy'n ymweld â dalfeydd yr heddlu mewn parau, yn ddirybudd, i wirio lles carcharorion ac i sicrhau bod eu hawliau'n cael eu cynnal. Hefyd, mae Ymwelwyr Annibynnol yn cynnal gwiriadau ar amgylchedd y ddalfa er mwyn sicrhau ei bod yn ddiogel ac o safon dda. Os nodir unrhyw bryderon, codir y rhain gan Ymwelwyr Annibynnol, i ddechrau, gyda Rhingyll y Ddalfa a hefyd drwy Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh) i'w drafod gydag uwch swyddogion sy'n gyfrifol am faterion dalfa. Rhoddir diweddariadau am gynnydd o ran materion sy'n destun pryder i SCHTh mewn modd amserol. Caiff unrhyw themâu trosfwaol eu bwydo i'r byrddau llywodraethu priodol i'w hystyried er mwyn cymryd camau pellach os yw'n briodol. Mae rôl yr Ymwelwyr Annibynnol yn cynnig amddiffyniad i garcharorion a thryloywder i brosesau cadw yn y ddalfa.

## 3. Ymweliadau Annibynnol â Dalfeydd

Ar ddiwedd mis Mawrth 2022, roedd 24 o Ymwelwyr Annibynnol ar y Cynllun, wedi'u gwasgaru ledled 4 ardal y Panel Ymweliadau Annibynnol â Dalfeydd; Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro, a Phowys.


Ffigwr 1: Nifer yr Ymwelwyr Annibynnol ym mhob Ardal Panel




Cawsom bedwar Ymwelydd Annibynnol yn ymddiswyddo o'r Cynllun rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022 ac ymunodd wyth Ymwelydd Annibynnol newydd â'r rotas Ymweliadau Annibynnol â Dalfeydd o fewn y cyfnod hwn. Mae dau Ymwelydd Annibynnol yn disgwyl cliriad fetio ar gyfer ardal Ceredigion.

Gwneir pob ymdrech i'r Cynllun gynrychioli demograffeg Dyfed-Powys, ond yn hollbwysig, penodir i'r tîm wirfoddolwyr sy'n dangos ymrwymiad a diddordeb gwirioneddol yn y Cynllun. O fewn ein hymgyrch recriwtio ddiwethaf, gwnaed pob ymdrech i recriwtio unigolion o ystod amrywiol o oedrannau, gan wneud ychydig o welliant ar drosolwg y llynedd.

Ffigur 2: Rhywedd ac Oedran Ymwelwyr Annibynnol




| Oed: | Canran 2021/22 | Canran 2020/21 |
|---|---|---|
| 18-24 | 4% | 17% |
| 25-34 | 8% | 0% |
| 35-44 | 4% | 0% |
| 45-54 | 4% | 5% |
| 55-64 | 32% | 26% |
| 65-74 | 32% | 35% |
| 75+ | 16% | 17% |

## 4. Rotas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd

Rhydaman, Aberystwyth, Hwlffordd, Aberhonddu a'r Drenewydd yw'r prif ddalfeydd yn ardal Dyfed-Powys. Ymwelir â Rhydaman, Aberystwyth a Hwlffordd unwaith yr wythnos, ac ymwelir ag Aberhonddu a'r Drenewydd bob pythefnos. Mae hyn oherwydd eu maint a'u defnydd amrywiol. Mae dwy ddalfa arall yn Nyfed-Powys; Aberteifi a Llanelli. Fe'u defnyddir fel dalfeydd gorlif ac nid yw Ymwelwyr Annibynnol yn ymweld â'r Dalfeydd hyn fel mater o drefn. Fodd bynnag, pe bai'r dalfeydd gorlif hyn yn cael eu defnyddio, hysbysir SCHTh a gall drefnu ymweliad gan Ymwelydd Annibynnol os oes angen.

| **Dalfa** | **Capasiti Celloedd ac ystafelloedd cadw (a ddefnyddir ar gyfer cadw plant)** |
|---|---|
| Rhydaman | 6 chell<br>2 ystafell gadw |
| Hwlffordd | 17 cell<br>2 ystafell gadw |
| Aberystwyth | 7 cell<br>1 ystafell gadw ac 1 ystafell sych |
| Aberhonddu | 8 cell<br>1 ystafell gadw |
| Y Drenewydd | 9 cell<br>1 ystafell gadw |

| | |
|---|---|
| Llanelli<br>(Gorlif yn unig) | 8 cell<br>2 ystafell gadw |
| Aberteifi<br>(Gorlif yn unig) | 6 chell |

Darperir rota i Ymwelwyr Annibynnol sy'n neilltuo pâr o Ymwelwyr Annibynnol i wythnos / pythefnos. Yna maent yn trefnu diwrnod ac amser yr ymweliad o fewn yr wythnos / pythefnos penodedig.

O fewn eu cyfarfodydd Panel Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd bob chwe mis, darperir data i Ymwelwyr Annibynnol ar eu hymweliadau diweddar yn ogystal â phroffil y ddalfa. Gofynnir iddynt ystyried y data hwn wrth drefnu ymweliadau i sicrhau bod ymweliadau'n cael eu cynnal ar ddiwrnodau ac amseroedd amrywiol drwy gydol yr wythnos.

Mae gan Ymwelwyr Annibynnol yr opsiwn o ymweld â dalfa mewn ardal Panel gwahanol hefyd. Mae hyn yn sicrhau bod arferion da yn cael eu rhannu ar draws yr ardaloedd. Dechreuodd yr ymweliadau hyn ym mis Mawrth 2022 wrth i lefelau COVID-19 leihau.

## 5. Data Ymweliadau

### I. Nifer yr Ymweliadau a Galwadau gan Ymwelwyr Annibynnol

Yn ystod 2021/2022, cynhaliwyd cyfanswm o 31 o alwadau a 116 o ymweliadau corfforol gan Ymwelwyr Annibynnol ledled ardal yr Heddlu. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd 251 o garcharorion yn y ddalfa. O'r rhain, cytunodd 100 o garcharorion i gael ymweliad neu sgwrs, a gwelwyd 42 carcharor. Roedd nifer y carcharorion a oedd yn fodlon cael ymweliad gan Ymwelydd Annibynnol yn uwch o lawer na nifer y carcharorion a oedd yn fodlon derbyn galwad ffôn. O'r herwydd, roedd Ymwelwyr Annibynnol yn awyddus i ddychwelyd at ymweliadau corfforol cyn gynted â phosibl.

### II. Nifer y Carcharorion


O 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022, cafodd 6,179 unigolyn eu cadw yn y dalfeydd ledled ardal Dyfed-Powys. O'r rhain, roedd 251 yn y ddalfa ar adeg ymweliadau gan Ymwelwyr Annibynnol. Ymwelwyd â 40% o'r carcharorion hynny a oedd yn bresennol gan Ymwelwyr Annibynnol (100).

| **Dalfa** | **Mewnbwn Ebrill 2021 – Mawrth 2022** | **Nifer yr ymweliadau/galwadau a gynhaliwyd gan Ymwelwyr Annibynnol** |
|---|---|---|
| Rhydaman | 1,973 | 30 |
| Llanelli (Gorlif yn unig) | 30 | 0 |
| Hwlffordd | 1,790 | 46 |
| Aberystwyth | 853 | 33 |

| | | |
|---|---|---|
| Aberteifi (Gorlif yn unig) | 56 | 0 |
| Aberhonddu | 668 | 18 |
| Y Drenewydd | 820 | 22 |


## III. Amseru ymweliadau

Ffigur 5: Nifer y galwadau ac ymweliadau yn ystod 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022




Ffigur 6: Nifer yr ymweliadau yn ystod 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022

Yn ystod y pandemig a thrwy gyflwyno galwadau gan Ymwelwyr Annibynnol, rydym wedi gweld cynnydd o ran cyswllt gan Ymwelwyr Annibynnol ar y penwythnosau. Mae diwrnodau ymweld yn parhau i fod wedi'u gwasgaru'n ac yn anrhagweladwy.



Mae Ymwelwyr Annibynnol yn cynnal ymweliadau yn y boreau fwyaf, sef yr amser prysuraf yn y ddalfa, gan fanteisio i'r eithaf ar y siawns o weld cynifer o garcharorion â phosibl. Ni chynhaliwyd ymweliadau ar ôl 21:00 gan fod carcharorion yn tueddu i fod yn cysgu ac felly mae Ymwelwyr Annibynnol yn debygol o fod â nifer is o garcharorion i siarad â hwy yn ystod oriau hwyrach. Fodd bynnag, mae Ymwelwyr Annibynnol yn ceisio cynnal ymweliadau yn ystod amrywiaeth o amseroedd, gan gynnwys penwythnosau, yn ogystal â diwrnodau'r wythnos er mwyn sicrhau lefel o anrhagweladwyedd o ran y dyddiau a'r amseroedd y maent yn cynnal ymweliadau.

## 6. Materion a Godwyd

Yn ystod eu hymweliadau, mae Ymwelwyr Annibynnol yn gwirio lles y carcharorion yn ogystal â'r amodau y cânt eu cadw. Mae Ymwelwyr Annibynnol yn ymwybodol o'r hawliau a roddir i garcharorion wrth iddynt gael eu cadw yn y Ddalfa yn unol â Chod C o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol (PACE) 1984. Ceir crynodeb o'r rhain yn Atodiad B.

Disgwylir i Ymwelwyr Annibynnol drafod unrhyw fân faterion lles neu amgylcheddol gyda Rhingyll y Ddalfa neu'r swyddog cysylltiedig ar adeg yr ymweliad.

Caiff unrhyw faterion na ellir eu datrys yn ystod ymweliad, neu rai y teimlai Ymwelwyr Annibynnol fod angen ymdrin â hwy ar lefel uwch, eu hadrodd i Weinyddwr y Cynllun o fewn SCHTh.

Yna caiff y rhain eu cofnodi a'u dilyn gyda Phrif Arolygydd Dalfeydd Heddlu Dyfed-Powys (HDP) neu'r Arolygwyr perthnasol. Yna, maent yn ystyried y materion, yn rhoi diweddariad / adroddiad i weinyddwr y cynllun, ac yn cymryd unrhyw gamau angenrheidiol.

Nodir sylwadau ac arsylwadau cadarnhaol hefyd ar y ffurflenni a'u hadrodd yn ôl i uwch staff y ddalfa.

Mae Gweinyddwr y Cynllun yn hysbysu Ymwelwyr Annibynnol o ganlyniad eu hadroddiad, a chynhelir trafodaethau pellach ynghylch y mater yng Nghyfarfod nesaf y Panel Ymweliadau Annibynnol â Dalfeydd.

Os bydd angen ystyried unrhyw faterion ar lefel uwch, maent yn cael eu trafod yn y bwrdd llywodraethu priodol, gan gynnwys y Bwrdd Plismona, lle mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu’n dal y Prif Gwnstabl i gyfrif.

Isod ceir rhestr o bryderon a godwyd gan Ymwelwyr Annibynnol rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022 gydag ymateb i'r cynnydd a wnaed yn erbyn pob pryder.

| Pryder a nodwyd | Cynnydd a wnaed |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Mae golchdy'n dychwelyd y dillad a'r dillad gwely anghywir yn ôl i'r ddalfa, mae eitemau ar goll ac ati.<br><br>Mae peth oedi o ran dychwelyd golch, gan arwain at ddim ond llond llaw o ddillad gwrth-rwyg ar gael. | Yn parhau: Anfonwyd gohebiaeth at y golchdy. Mae'r sefyllfa wedi gwella llawer, ond mae dal problem o dro i dro. Bydd Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn parhau i fonitro'r sefyllfa. |
| Materion o ran storio a chadw TCC. | Yn parhau: Mae'r mater ar Gofrestr Risg yr Heddlu ac mae system TCC newydd yn cael ei threfnu. |
| Nid yw intercom wrth y fynedfa'n gweithio mewn un o'r dalfeydd. | Datryswyd: Mae'r broblem hon wedi'i datrys. |
| Sain yng nghell 5 ddim yn gweithio yn un o'r dalfeydd. | Datryswyd: Nid yw sain yn ofyniad bellach yn dilyn canllawiau gan y Coleg Plismona. |
| Datgloi drws diogelwch tân o bell er ddim yn gweithio. | Yn parhau: Mae trafodaethau'n cael eu cynnal rhwng yr adran Iechyd a Diogelwch a'r adran Ystadau er mwyn datrys y mater hwn, yn unol â chanllawiau. |
| Does dim toiledau o fewn y celloedd ar gyfer plant yn un o'r dalfeydd. | Datryswyd: Yn dilyn asesiad dichonolrwydd gan yr adran Ystadau, ystyriwyd nad oedd yn ymarferol gosod toiledau yn y celloedd hyn. Yn gadarnhaol, mae nifer y plant a gedwir yn y ddalfa'n isel iawn. Penderfynwyd y byddai hyn yn cael ei reoli gan y ddalfa. Dylai oedolyn priodol fod gyda phlant sy'n dod i'r ddalfa, dylent gael eu rhyddhau cyn gynted â phosibl, a bydd staff yn sicrhau bod pob unigolyn yn gyfforddus ac yn gwybod am y cyfleusterau. |
| Darpariaeth feddygol. Oedi o ran gofal meddygol yn cyrraedd y ddalfa. | Yn parhau: Mae'r ddalfa wrthi'n ymgysylltu â'r contractwr gofal iechyd a rheolwyr yr Heddlu er mwyn ceisio dod o hyd i ddatrysiad ar gyfer lleddfu'r materion hyn. |
| Nid yw carcharorion wedi derbyn esgidiau cynfas y ddalfa pan mae eu hesgidiau wedi'u cymryd wrthynt fel mater o drefn. | Datryswyd: Anfonwyd neges atgoffa at aelodau staff mewn perthynas â chynnig esgidiau i bob carcharor. Bydd Ymwelwyr Annibynnol yn parhau i fonitro hyn. |
| Nid yw'r llyfr prawf tymheredd yn y gegin yn cael ei gwblhau bob dydd. Os yw bwyd yn cael ei roi, dylid nodi hyn ar y gofrestr. | Datryswyd: Dylai dalfeydd brofi pryd bwyd cyntaf y dydd er mwyn sicrhau bod pethau'n gweithio fel y dylent. Anfonwyd neges atgoffa at aelodau staff. Bydd Ymwelwyr Annibynnol yn parhau i fonitro hyn. |

| | |
|---|---|
| Difrod i do cwpwrdd bwyd yn un o'r dalfeydd. | Datryswyd: Adroddwyd am y mater, ac mae'r gwaith gofynnol wedi'i gwblhau. |
| Prinder Staff mewn Dalfeydd. Gwelodd Ymwelwyr Annibynnol oedi sylweddol o ran prosesu carcharorion yn ystod ymweliad diweddar. | Yn parhau: Mae trafodaethau'n parhau. |
| Does dim taflenni hawdd eu deall ar gael ar un o ddesgiau'r ddalfa. | Datryswyd: Mae taflenni hawdd eu deall ar gael yn awr. |
| Bu oedi o ran darparu Oedolion Priodol gan wasanaeth Hafal gan nad oes staff ar gael. | Datryswyd: Mae Hafal wedi nodi eu bod wedi recriwtio aelodau staff ychwanegol, a ddylai leddfu'r mater yn awr. |
| Bu rhai problemau hefyd o ran y darparwr bwyd yn methu â dosbarthu'r bwyd a archebwyd ac yn dod â phrydau na chafodd eu harchebu yn eu lle. | Yn parhau: Mae prinder rhai dewisiadau bwyd yn genedlaethol. Canfu dewisiadau eraill yn y cyfamser. |
| Nid yw desg flaen un o'r dalfeydd yn addas ar gyfer y diben ac mae angen microffon arni. | Yn parhau: Mae gwaith adnewyddu wedi cael ei drefnu ar gyfer mis Medi 2022. |

Dros y flwyddyn ddiwethaf, nodwyd llawer o sylwadau cadarnhaol. Mae Ymwelwyr Annibynnol yn nodi'n rheolaidd o fewn eu canfyddiadau bod y ddalfa'n lân ac yn daclus gyda phopeth mewn cyflwr da.

## 7. Hyfforddiant a Digwyddiadau

- Ar 1 Mawrth 2022, cynhaliwyd sesiwn hyfforddi ar gyfer unrhyw Ymwelwyr Annibynnol a oedd eisiau adolygu Cofnodion Dalfa.
- Cynhaliwyd cyfarfodydd Panel Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn rhithwir drwy'r rhaglen *Microsoft Teams*. Cynhaliwyd cyfarfodydd Panel ym mis Ebrill a mis Tachwedd 2021.
- Yn ystod wythnos Genedlaethol Gwirfoddolwyr 1-7 Mehefin, cynhaliodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu alwadau rhithwir gyda'r holl Ymwelwyr Annibynnol er mwyn diolch i bawb yn unigol am eu cyfraniadau.

## 8. Cynllun Peilot Arsylwyr Annibynnol â Dalfeydd ac Adolygu Cofnodion Dalfa

Yn ôl ym mis Medi 2019, daeth ein Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn un o bum ardal heddlu, yr unig un yng Nghymru, i gymryd rhan yn y 'Cynllun Peilot Arsylwyr Annibynnol Dalfeydd' Cenedlaethol. Nod y Peilot chwe mis, a oedd yn cael ei redeg gan Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd (CYAD), oedd diogelu lles y rhai y nodwyd eu bod yn agored i niwed

yn nalfeydd yr heddlu, gan gynnwys pobl ifainc. Rhoddodd y Peilot gyfle i Ymwelwyr Annibynnol adolygu detholiad o gofnodion dalfa carcharorion sy'n agored i niwed fel mater o drefn, gan roi cyfle iddynt ystyried taith gyfan y carcharor drwy'r ddalfa.

Cwblhawyd y gwerthusiad annibynnol o'r Peilot ym mis Gorffennaf 2020 a'r argymhelliad oedd bod y gwiriadau ychwanegol hyn yn ystod ymweliadau gan Ymwelwyr Annibynnol, a'r Adolygiadau o Gofnodion Dalfa rheolaidd, yn dod yn rhan reolaidd o rôl Ymwelwyr Annibynnol. Mae'r newidiadau hyn yn cael eu hystyried gan y Swyddfa Gartref ar hyn o bryd.



Yn anffodus, oherwydd COVID-19, nid oedd ein Hymwelwyr Annibynnol yn gallu bodloni ac adolygu cofnodion dalfeydd tan fis Mawrth 2022, fodd bynnag, drwy gydol y Pandemig, mae'r swyddfa wedi bod yn gwneud gwaith samplu annibynnol ar gofnodion dalfa yn fisol er mwyn sicrhau bod gwiriadau lles ar garcharorion yn parhau, a bod yr holl hawliau'n parhau i gael eu rhoi yn ystod y cyfnod digynsail hwn.

Adolygwyd 146 Cofnod rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2022. Rhennir canfyddiadau â'r Prif Arolygydd Dalfeydd a thynnir sylw at unrhyw faterion.

Yn gadarnhaol, ym mis Mawrth 2022, roedd Ymwelwyr Annibynnol yn medru ailddechrau adolygu cofnodion dalfa'n fisol ym Mhencadlys yr Heddlu, Caerfyrddin.

Prif ganfyddiadau:

- Gwelliannau o ran aelodau staff benywaidd yn cael eu penodi ar gyfer benywod.
- Dim oedi sylweddol o ran nodi cyfreithwyr neu oedolion priodol.
- Mae llety ar gyfer plant dal yn broblem. Cynhaliwyd cyfarfod ym mis Tachwedd 2021 gyda'r Comisiynydd a Phenaethiaid Gwasanaethau Plant. Mae Penaethiaid Gwasanaethau Plant yn ystyried eu hadnoddau a'u cyfleusterau presennol i weld pa un ai a allant ddefnyddio gwely brys ar gyfer plant sy'n cyrraedd y ddalfa.
- Mae'r defnydd o'r rhestr wirio ar gyfer plant yn y ddalfa wedi gwella'n sylweddol.
- Canfu nad yw darpariaethau glendid a mesurau diogelwch COVID-19 yn cael eu nodi'n rheolaidd mewn cofnodion.

## 9. Cynllun Peilot Dillad Gwrth-rwyg

Ym mis Mawrth 2022, cychwynnodd ein Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd gynllun peilot Dillad Gwrth-rwyg rhwng Heddlu Dyfed-Powys a'r

Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd. Ar hyn o bryd, Heddlu Dyfed-Powys, fel yr unig ardal beilot, sy'n arwain ar hyn.

Dillad a ddefnyddir mewn nifer o ddalfeydd ledled y DU yw dillad gwrth-rwyg neu ddillad gwrth-niwed. Gwnaed y dillad o ddefnydd sy'n atal carcharorion rhag eu rhwygo a'u clymu.

Daeth y cynllun peilot hwn i fodolaeth yn dilyn adolygiad thematig o ddillad gwrth-niwed yn nalfeydd yr heddlu gan Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd.

Canfu Cymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd bod adroddiadau Arolygwyr yn datgelu pryderon cyson am y defnydd o ddillad gwrth-niwed yn y ddalfa. Roedd rhai o'r pryderon a nodwyd yn genedlaethol yn cynnwys:

- Cofnodi ac arferion gwael o ran cyfranoledd a chyfiawnhad dros ddefnyddio'r dillad;
- Nodir bod y dillad yn cael eu defnyddio yn absenoldeb gwybodaeth risg, yn aml gyda charcharorion anodd, drwy rym, a nodwyd eu bod o bosibl yn cael eu defnyddio fel cosb;
- Pryderon ynglŷn ag urddas yn cael ei gynnal yn effeithiol wrth ddefnyddio grym i ddiosg dillad;
- Mae carcharorion wedi'u gadael yn noeth mewn ymgais i reoli ymddygiadau niweidiol, mewn dalfeydd lle y defnyddir y dillad a'r rhai lle na ddefnyddir y dillad.

Fel rhan o'r cynllun peilot, bydd ein Hymwelwyr Annibynnol yn adolygu cofnodion dalfa unigolion o fewn dalfeydd Dyfed-Powys sydd wedi derbyn dillad gwrth-niwed yn annibynnol, gan edrych yn benodol ar y canlynol:

- A yw'r dillad yn cael eu cyhoeddi'n briodol?
- A ydynt yn cael eu tynnu i ffwrdd cyn gynted â phosibl?
- A oes rhesymeg ddigonol ar gyfer eu defnyddio wedi'i gofnodi yng nghofnodion y ddalfa?

Ym mis Mawrth, adolygodd fy Ymwelwyr Annibynnol gofnodion 12 unigolyn a oedd wedi derbyn dillad gwrth-rwyg.

Mae cofnodion wedi'u hadolygu gan ddefnyddio'r dyfarniad CAG canlynol:

| Rheswm dros y Dyfarniad | Camau Dilynol |
|---|---|
| Cwymplen mewn defnydd a rhesymeg lawn dros ddefnyddio'r dillad, sy'n gyfiawnadwy ac yn gymesur i'r perygl a gyflwynir. | Does dim angen camau gweithredu pellach ar hyn o bryd. |
| Tynnwyd y dillad i ffwrdd cyn gynted ag y bo'n ymarferol. | |
| Dad-ddwysáu clir, a defnyddiwyd eitemau tynnu sylw ac ati er mwyn lleihau'r perygl y byddai'r carcharor yn niweidio ei hun yn fwriadol. | |

<table>
<tr><td>Ychydig iawn o gyfiawnhad, neu gyfiawnhad aneglur, dros ddefnyddio’r dillad.</td><td rowspan="3">Rhoddwyd hyfforddiant/cyngor pellach i staff y ddalfa.</td></tr>
<tr><td>Gwybodaeth annigonol ar gyfer pennu cymesuredd defnyddio’r dillad.</td></tr>
<tr><td>Gadawyd y carcharor yn y dillad am gyfnod hir.</td></tr>
<tr><td>Nodwyd drwy’r gwymplen fod y dillad wedi’u defnyddio, ond ni roddwyd gwybodaeth bellach.</td><td rowspan="4">Mae angen archwilio ymhellach i’r defnydd/rhesymeg. Achosion i’w codi gydag arolygydd y ddalfa.</td></tr>
<tr><td>Defnyddiwyd y dillad yn absenoldeb gwybodaeth risg ond ni nodwyd rhesymau eraill.</td></tr>
<tr><td>Defnyddiwyd y dillad gan yr heddlu ond ni roddwyd gwybodaeth bellach.</td></tr>
<tr><td>Ni ddefnyddiwyd y gwymplen. Darganfu gwybodaeth am y dillad fel rhan o adolygiadau rheolaidd o gofnodion dalfa gan Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd.</td></tr>
</table>

Rhoddwyd y graddau canlynol i’r 12 cofnod a adolygwyd ym mis Mawrth 2022:

| | |
|---|---|
| Gwyrdd | 4 |
| Ambr | 5 |
| Coch | 3 |

Y nod yw y bydd y cynllun peilot yn lleihau nifer y dillad gwrth-rwyg sy’n cael eu cyhoeddi’n sylweddol, ac yn sicrhau bod rhesymeg ddigonol yn cael ei chofnodi pe bai dillad yn cael eu defnyddio. Trafodir canfyddiadau’n fisol gyda’r Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd a’r Prif Arolygydd Dalfeydd. Tynnir sylw’r Prif Arolygydd Dalfeydd at unrhyw gofnodion dalfa sy’n derbyn gradd goch, a darperir y rhifau cofnod. Mae hyn yn caniatáu ar gyfer rhoi adborth cadarnhaol i berchnogion y cofnodion hynny, er mwyn helpu i godi ymwybyddiaeth a lledaenu arfer da.

Fel rhan o’r cynllun peilot, bydd Ymwelwyr Annibynnol yn parhau i gwrdd bob mis er mwyn adolygu tua 15 cofnod y mis, â ffocws ar y rhai sydd wedi derbyn dillad gwrth-rwyg. Y bwriad yw i’r cynllun peilot hwn barhau tan fis Awst 2022.

## 10. Fframwaith Sicrhau Ansawdd




Cyflwynwyd Gwobrau Sicrhau Ansawdd Cymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd (CYAD) mewn seremoni yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 15 Mai 2019. Roedd pedair lefel gradd o ddyfarniad, ac roedd Cynllun Dyfed-Powys yn falch iawn o fod wedi derbyn y safon Aur; sy'n golygu bod y Cynllun yn darparu safon ragorol o ran ymweliadau â dalfeydd a rheoli gwirfoddolwyr. Oherwydd COVID-19, bydd y lefel hon yn cael hailasesu ym mis Medi 2023.

## 11. Datblygiadau i'r Dyfodol

- Mae diwrnod hyfforddi wedi'i drefnu ar gyfer Awst 2022 ym Mhencadlys yr Heddlu. Bydd cyflwyniadau yn ystod y diwrnod hyfforddi hwn yn cynnwys trosolwg o daith carcharor o'r adeg y mae'n cyrraedd y ddalfa hyd at ei ryddhau, cyflwyniad ar gydraddoldeb ac amrywiaeth, a chyflwyniad ar urddas carcharorion.
- Y nod yw y bydd y cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn symud i adroddiadau electronig yn hytrach na ffurflenni adrodd papur.
- Mae cynlluniau'n parhau ar gyfer y Ddalfa a'r Ganolfan Blismona newydd yn Llanelli. Rhoddwyd caniatâd cynllunio i Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu gan Gyngor Sir Gaerfyrddin nôl yn 2021 ar gyfer y datblygiad arfaethedig, a fydd yn adeilad cynaliadwy uchelgeisiol, gyda gradd ardderchowgrwydd BREEAM. Bydd Ymwelwyr Annibynnol yn cael eu gwahodd i ddigwyddiad agored ar gyfer ymweld â safle adeiladu'r adeilad newydd ar 24 Mehefin 2022.

## 12. Diddordeb mewn dod yn Ymwelydd Annibynnol â Dalfeydd?

Os oes gennych ddiddordeb mewn gwirfoddoli i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu a dod yn Ymwelydd Annibynnol yn ardal Dyfed-Powys, neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth, ewch i:

https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/y-swyddfa/cynlluniau-gwirfoddoli/ymwelwyr-annibynnol-ar-ddalfa/

Neu cysylltwch â Caryl Bond ar 01267 226440

Neu E-bostiwch: caryl.bond@dyfed-powys.police.uk

## Atodiad A:

| **Ceir crynodeb isod o hawliau carcharorion o dan God C PACE. Dyma'r wybodaeth a roddir i garcharor yng ngorsaf yr heddlu. Mae manylion llawn ar gael yng Nghod Ymarfer C yr Heddlu.** |
|---|
| **1**. Dywedwch wrth yr heddlu os ydych am i gyfreithiwr eich helpu tra byddwch yng ngorsaf yr heddlu. Mae hyn am ddim. |
| **2**. Dywedwch wrth yr heddlu os ydych chi am i rywun gael gwybod ble rydych chi. Mae hyn am ddim. |
| **3**. Dywedwch wrth yr heddlu os ydych am edrych ar eu rheolau – fe'u gelwir yn Godau Ymarfer. |
| **4**. Dywedwch wrth yr heddlu os oes angen cymorth meddygol arnoch. Dywedwch wrth yr heddlu os ydych chi'n teimlo'n sâl neu wedi cael eich anafu. Mae cymorth meddygol am ddim. |
| **5**. Os gofynnir cwestiynau ichi am drosedd a amheuir, nid oes rhaid ichi ddweud dim. Fodd bynnag, gall niweidio eich amddiffyniad os nad ydych yn sôn wrth gael eich holi am rywbeth y byddwch yn dibynnu arno yn ddiweddarach yn y llys. Gellir cyflwyno unrhyw beth a ddywedwch yn dystiolaeth. |
| **6**. Rhaid i'r heddlu ddweud wrthych am y drosedd y credant eich bod wedi'i chyflawni a pham rydych wedi cael eich arestio ac yn cael eich cadw. |
| **7**. Rhaid i'r heddlu adael i chi neu'ch cyfreithiwr weld cofnodion a dogfennau ynghylch pam rydych wedi cael eich arestio ac yn cael eich cadw ac am eich amser yng ngorsaf yr heddlu. |
| **8**. Os oes angen cyfieithydd arnoch, rhaid i'r heddlu gael un ichi. Gallwch hefyd gael dogfennau penodol wedi'u cyfieithu. Mae hyn am ddim. |
| **9**. Dywedwch wrth yr heddlu os nad ydych yn Brydeinig a'ch bod am gysylltu â'ch llysgenhadaeth neu'ch swyddfa conswl neu os ydych am roi gwybod iddynt eich bod yn cael eich cadw. Mae hyn am ddim. |
| **10**. Rhaid i'r heddlu ddweud wrthych am ba hyd y gallant eich cadw. |
| **11**. Os codir tâl arnoch a bod eich achos yn mynd i'r llys, bydd gennych chi neu'ch cyfreithiwr hawl i weld y dystiolaeth erlyn cyn y gwrandawiad llys. |

## Atodiad B

| **Y gwiriadau amgylcheddol y mae Ymwelwyr Annibynnol yn ymgymryd â hwy wrth ymweld â Dalfa:** |
|---|
| - Gwiriwch fod y celloedd yn lân (celloedd wedi'u meddiannu a chelloedd gwag lle bo'n bosibl). |
| - Gwiriwch fod y gegin a'r ardal paratoi bwyd yn lân ac yn daclus. |
| - Gwiriwch fod pob ardal arall yn y Ddalfa yn lân ac yn daclus. |
| - Gwiriwch fod y gwres, y goleuadau a'r awyru yn ddigonol. |
| - Gwiriwch fod yr ystafell feddygol wedi'i chloi os nad oes gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn bresennol. |
| - Gwiriwch fod pecyn cymorth cyntaf ar gael yn rhwydd. |
| - Gwiriwch fod digon o stociau o ddillad gwely, siwtiau gwrth-rwyg a dillad sbâr. |
| - Gwiriwch fod digon o stociau o fwyd. |
| - Gwiriwch fod y Ddalfa yn glir o unrhyw beryglon iechyd a diogelwch ymddangosiadol. |
| - Gwiriwch fod y seiniwr cell a systemau teledu cylch cyfyng yn gweithio. |
| - Gwiriwch fod deunyddiau crefyddol ar gael yn rhwydd i garcharorion. |
| - Gwiriwch nad oes unrhyw bwyntiau cwlwm sy’n cyflwyno perygl i garcharorion. |

| **Y gwiriadau lles y mae Ymwelwyr Annibynnol yn ymgymryd â hwy wrth ymweld â Dalfa:** |
|---|
| - A ydynt yn cael eu trin yn rhesymol? |
| - A ydynt wedi cael gwybod am eu hawliau cyfreithiol ac ymwelwyr? |
| - A ydynt yn deall eu hawliau fel y cawsant eu hesbonio iddynt? |
| - A oes rhywun wedi cael gwybod eu bod yn cael eu cadw yn y ddalfa (os ydynt wedi gofyn am hyn)? |
| - A ydynt wedi gweld cyfreithiwr (os ydynt wedi gofyn am hyn)? |
| - A ydynt wedi cael cynnig / derbyn bwyd / diod? |
| - A ydynt wedi gofyn am / cael sylw meddygol os oes angen? |
| - A ydynt wedi cael mynediad i gyfleusterau toiled / hylendid / ymolchi? |
| - A oes dillad gwely / dillad / blanced newydd wedi'u darparu, os oes angen? |
| - A oes cyfnodau gorffwys addas a / neu ymarfer corff ar gael, os yw'n briodol? |